

Cynnwys

Rhaglen	2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf	6
8 (i) Hunan Arfarniad Ysgol Brithdir	10
8 (ii) Hunan Arfarniad Ysgol Tanycastell	13
8 (iii) Hunan Arfarniad Ysgol Pont y Gof	16
8 (iv) Hunan Arfarniad Ysgol Tregarth	20
9 (a) Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru	25
9 (c) Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru	31



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL
STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION

Dyddiad ac Amser / Date and Time

2.00 p.m. DYDD MERCHER, 25 MEHEFIN 2014

2.00 p.m. WEDNESDAY, 25 JUNE 2014

Lleoliad / Location

Siambr Dafydd Orwig

Swyddfeydd y Cyngor

Stryd y Jêl

CAERNARFON

Noder y man cyfarfod, o.g.y.dd. / Please note the venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

01341 424 301

Dosbarthwyd: 17.06.14

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION

AELODAETH / MEMBERSHIP (7)

Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Huw Edwards

Sedd Wag

Selwyn Griffiths

Annibynnol / Independent (2)

Y Cynghorwyr / Councillors

Tom Ellis

Jean Forsyth

Llais Gwynedd (2)

John Brynmor Hughes

Louise Hughes

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members –

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-Chairman of the Council –
Y Cynghorwyr / Councillors Dewi Owen a / and Dilwyn Morgan

Cristnogion a Chrefyddau Eraill / Christians and Other Religions

Yr Eglwys Fethodistaidd / Methodist Church - Mr Wyn Myles Meredith

Undeb Bedyddwyr Cymru / Union of Welsh Baptists - Mrs Ruth Davies

Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Presbyterian Church of Wales - Disgwyl Enwebiad / Awaiting Nomination

Yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales - Parch. / Rev. Robert Townsend

Yr Annibynnwyr / The Independents – Mr Cynrig Hughes

Yr Eglwys Gatholig / Catholic Church - Mrs Eirian Bradley Roberts

Athrawon / Teachers

ASCL - Mrs Alwen Watkin

UCAC - Mr Noel Dyer

NAS/UWT - Mrs Miriam Angharad Amlyn

NUT - Mr Euron Hughes

ATL - Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination

NAHT - Mrs Lisabeth Roberts

Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

Mr Rheinallt Thomas

Mr Gwyn Rhydderch

Y Parch. Aled Davies

R H A G L E N

1. **Gweddi**

2. **Ethol Cadeirydd**

I ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2014/15.

3. **Ethol Is-gadeirydd**

I ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2014/15.

4. **Ymddiheuriadau**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

5. **Datgan Cysylltiad Personol**

Derbyn unrhyw gysylltiad personol

6. **Materion Brys**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. **Cofnodion**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 19 Chwefror 2014.

(Copi'n amgaaedig - Papur Gwyn)

8. **Hunan Arfarniadau Ysgolion**

I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

- (i) Ysgol Brithdir
- (ii) Ysgol Tanycastell
- (iii) Ysgol Pont y Gof
- (iv) Ysgol Tregarth

(Copi'n amgaaedig - Gwyrdd)

9. **Cymdeithas CYSAGau Cymru**

(a) I dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili.

(Copi'n amgaaedig - Papur Hufen)

(b) I nodi bod cyfarfod nesaf y Gymdeithas uchod i'w gynnal ar 2 Gorffennaf 2014 yn Siambr Cyngor Sir Powys, Llandrindod Wells.

(c) I bleidleisio ar enwebiadau i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.

(Copi'n amgaaedig – Papur pinc)

C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 19/02/14

Yn Bresennol:

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths – Cadeirydd

Aelodau Cyngor Gwynedd : Y Cynghorwyr Jean Forsyth, Louise Hughes a Llywarch Bowen Jones.

Cristnogion a chrefyddau eraill: Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd)) a'r Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru).

Aelod Cyfetholedig: Mr Rheinallt Thomas

Athrawon: Mr Noel Dyer, (UCAC), a Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

Swyddogion: Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Arweinydd System GwE) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Tom Ellis y Cynghorydd Gareth Thomas a Mrs Alwen Watkin (ASCL)

1. **GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd E.Selwyn Griffiths

2. **DYMUNIADAU GORAU**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at anhwylder diweddar Mrs Alwen Watkin, (ASCL) a'r Cynghorydd Tom Ellis ac anfonwyd cofion atynt.

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2013, fel rhai cywir.

5. **CERDDORIAETH MEWN ADDOLIAD**

Rhodddwyd cyfle i'r Parchedig Robert Townsend gyfeirio at lyfr o ganeuon crefyddol newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Eglurodd ei fod wedi bod yn awyddus ers tro i drefnu ar gyfer cael gwell o amrywiaeth o ganeuon i'w defnyddio mewn addoliad mewn ysgolion.

Yn sgil hyn cysylltodd â cherddorion crefyddol o wahanol enwadau a gofyn iddynt gyfansoddi caneuon addas. O ganlyniad cafwyd 61 o ganeuon 42 ohonynt yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a'r gweddill yn Saesneg.

Bellach mae'r caneuon wedi eu cyhoeddi mewn llyfr dan yr enw 'O Dduw ein Tad'. Yn ogystal darparwyd cryno ddisgiau gyda cherddoriaeth gefndirol a geiriau'r caneuon fel y gellir eu dangos drwy gyfrwng 'power point'.

Ychwanegwyd bod gŵr busnes Cristnogol, oedd yn dymuno bod yn ddiennw, wedi noddi'r cynllun ar gyfer sicrhau fod pecyn o'r caneuon yn cael ei anfon am ddim i bob ysgol gynradd yn y chwe sir yng ngogledd Cymru.

Esboniwyd ymhellach na fydd unrhyw un yn gwneud elw o'r fenter. Talwyd y costau argraffu ac ati gan Esgobaeth Bangor a byddant ar gael ar wefan yr Esgobaeth am £10 y copi.

Cynhelir lansiad swyddogol ddydd Mercher, 5 Mawrth, sef dydd Mercher y Lludw.

Croesawyd y wybodaeth a phwysleisiodd y cadeirydd fod caredigrwydd y gŵr busnes o werth neilltuol. Gofynnwyd i'r Parchedig Robert Townsend estyn diolch yr aelodau i'r gŵr.

6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Tywysodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau isod gan nodi bod 2 ysgol wedi ymateb i'w gais i gyflwyno hunan arfarniadau yn dilyn arolygiadau diweddar.

(i) Ysgol Edmwnd Prys Gellilydan

Nodwyd bod cynnydd da i'w weld mewn Addysg Grefyddol ar draws yr ysgol uchod. Ychwanegwyd fod tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol.

Cyfeiriwyd yn benodol at y sesiynau Amser Cylch a gynhelir yn rheolaidd yn y dosbarthiadau. O ran budd i'r disgyblion, nodwyd bod y sesiynau yma yn cyfrannu at ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo sgiliau trafod, gwrando ac ymateb i eraill yn dda iawn.

Nodwyd bod cysylltiad agos rhwng yr ysgol ag elusennau dyngarol, a bod yr ysgol hefyd wedi 'mabwysiadu' plentyn mewn gwlad dramor ac yn cyfrannu'n fisol at y cynllun yma. Nodwyd bod Addoli ar y Cyd, ar y cyfan, yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.

Mewn ymateb i ymholiadau, nodwyd :-

- ei bod yn drefn gyffredin iawn i athrawon CPA (Cynllunio Paratoi ac Asesu) addysgu ym maes Addysg Grefyddol;
- bod neilltuo o leiaf awr yr wythnos ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2 yn dderbyniol.

(ii) Ysgol Brynrefail

Nodwyd mai'r Parchedig Robert Townsend yw cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol uchod, ond nodwyd nad oedd angen iddo adael y siambr a chymerodd ran yn y drafodaeth.

Nodwyd bod y deilliannau a'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol yn dda yn yr ysgol. Cadarnhawyd bod canrannau A/C wedi cynyddu o 55.6% i 60.5% ac A/E o 66.7% i 77.8%.

Derbyniwyd bod materion i gael sylw yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5.

Yn yr hunan arfarniad cyfeirir at adroddiad Estyn, yn dilyn arolygiad ym mis Tachwedd, 2012, oedd yn nodi fod “yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion statudol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol statudol.”

O safbwynt Addoli ar y cyd nodir bod y ddarpariaeth yn dda.

Nododd aelod fod y rhan helaethaf o'r ysgolion yn yr hunan arfarniadau yn dyfarnu'r safon fel bod yn 'dda' Gofynnodd a oedd tuedd i'r ysgolion fod yn amheus o ddyfarnu eu hunain fel bod yn 'rhagorol' neu a ddylid ystyried ffyrdd o godi safonau fel eu bod yn 'rhagorol.'

Mewn ymateb dywedodd Arweinydd Sustem GwE ei bod ar ddeall fod disgwyliadau Estyn yn codi ac y gellid gweld ysgolion yn dyfarnu safon y gwaith mewn perthynas ag Addysg Grefyddol, fel bod yn 'ddigonol'.

Fodd bynnag, dywedodd fod ysgolion yn dod yn fwy ymwybodol o ddisgwyliadau safon dda, ac yn ymateb pan mae angen cyrraedd y safon. Ychwanegodd mai'r her ar hyn o bryd yw gweithio gydag ysgolion fel y gellir cyrraedd y safon ragorol.

7. Y FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD CENEDLAETHOL AC ADOLYGIAD O GWRICWLWM CENEDLAETHOL CYMRU

Cafwyd cyflwyniad gan Arweinydd Sustem GwE yn ymdrin â Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac adolygiad o Gwricwlwm cenedlaethol Cymru.

Ymhelaethodd gan nodi mai'r her sy'n wynebu athrawon Addysg Grefyddol ysgolion uwchradd yw datblygu sgiliau rhifedd o fewn cyd-destun Addysg Grefyddol, a gwneud hynny yn ystyrlon.

Nodwyd bod yr athrawon ar dir cadarnach o safbwynt llythrennedd, ond bod disgwyliadau pendant wedi eu gosod.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau i ofyn cwestiynau, ac ymatebwyd yn briodol.

7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

(a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

(b) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad ar weithgareddau Cymdeithas CYSAGau Cymru 2012 -13.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas yng Nghaerffili ar 27 Mawrth, 2014.

PENDERFYNWYD:-

a) Derbyn y wybodaeth;

b) Enwebu'r aelodau canlynol i gynrychioli CYSAG Gwynedd ar Gymdeithas CYSAGau Cymru:-

Y Parchedig Robert Townsend; Mrs Miriam Angharad Amlyn a Mr Wyn Myles Meredith.

c) Derbyniwyd llythyr yn gwahodd CYSAG Gwynedd i enwebu aelod newydd o Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC. Esboniwyd na allai unrhyw GYSAG enwebu aelod os oedd cynrychiolydd ganddynt eisoes ar y Pwyllgor Gwaith.

Cymerir pleidlais ar yr enwebiadau a dderbynnir yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

PENDERFYNWYD enwebu Mr Wyn Myles Meredith fel aelod newydd o Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWYNEDD 2012/13

Nodwyd nad oedd yr Adroddiad Blynyddol ar gael i'w dosbarthu, ond cadarnhawyd y byddai'r aelodau'n eu derbyn mewn da bryd.

Fodd bynnag, cyn cau'r drafodaeth, atgoffwyd aelodau fod yr adroddiad yn creu cyfle i'r CYSAG ystyried pa mor llwyddiannus maent wedi bod mewn perthynas â chodi safonau Addysg Grefyddol.

Yn sgil hyn, gwnaed awgrym gan Arweinydd Sustem GwE y dylid gweithio er mwyn grymuso eu trefn o hunan arfarnu drwy sefydlu cynllun gweithredu syml. Ychwanegodd y gallai'r gwaith o fewn y cynllun gweithredu gynnwys amrywiol bethau, megis eangu cynlluniau cydweithredu a phwyso ar benaethiaid i adnabod anghenion Addysg Grefyddol.

PENDERFYNWYD bod camau'n cael eu cymryd er sefydlu cynllun gweithredu syml.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.40 pm

CADEIRYDD

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Manylion cyswllt: (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.

Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: Brithdir

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

- Gwelwyd cynnydd da ar draws yr ysgol mewn Addysg Grefyddol.
- Mae'r pwyslais cynyddol ar sgiliau, medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn ysgogi gweithgareddau amrywiol ac annibynnol.
- O edrych ar samplau gwaith a llyfrau'r disgyblion gwir amrywiaeth o gyflwyniadau sy'n adlewyrchu'r sgiliau.
- Rhoddir brofiadau amrywiol a heriol i'r disgyblion hynaf tra bod sgiliau darllen a chofnodi y Cyfnod Sylfaen yn dangos dealltwriaeth dda o ofnyon y Fframwaith Genedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol.
- Mae'r defnydd o TGCh mewn ymholiadau yn dda iawn, i ganfod gwybodaeth a chyflwyno darn o waith.
- Rhoddir cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfrannu ar lafar i drafodaethau ar gwestiynau crefyddol a moesol.
- Cynhelir sesiynau Amser Cyloch yn rheolaidd yn y dosbarthiadau ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agweddau positif tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd. Maent hefyd yn hyrwyddo sgiliau trafod, gwranddo ac ymateb i eraill yn dda iawn.
- Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol ag elusennau dyngarol megis Ambiwlans Awyr, Plant mewn Angen, Macmillan ayyb.
- Ar ddiwedd cyfnodau allweddol mae pob disgybl yn cyflawni Deilliant 5 ac mae hanner disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Deilliant 6 yn y maes Datblygiad Cymdeithasol a Lles ac Amrywiaeth; mae y rhan fwyaf yn cyflawni Lefel 4 neu 5 ym maes Addysg Grefyddol yn CA2.

Materion i gael sylw

- Parhau i ddatblygu sgiliau ymchwilol dysgwyr
- Parhau i ddatblygu gallu disgyblion i gynllunio, datblygu ac adfyfrio ar eu dysgu
- Sicrhau bod darnau ysgrifenedig estynedig yn cael eu cyflwyno yn dymhorol
- Sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cynnwys yn y pwnc.

Rhagorol		Da	✓	Digonol		Anfoddfaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

- Mae ein cynlluniau yn rhoi cyfle i osod 'cwestiwn mawr' ar ddechrau tymor ac amrywiaeth o strategaethau yn ysgogi ymchwilio a chyflwyniadau annibynnol.
- Defnyddir adnoddau effeithiol i bwrpas cefnogi'r dysgu gan y disgyblion.
- Mae pennu meini prawf ar y cyd yn arwain i'r disgyblion hynaf ddewis rai eu hunain.
- Mae'r athrawes yn ymwybodol o bwysigrwydd gofyn cwestiynau agored er mwyn gwneud i'r disgyblion feddwl.
- Defnyddir cwestiynu effeithiol i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion.
- Ceir disgwyliadau uchel gan yr athrawes a chynhaliadau gyson.
- Rhoddir bri ar waith dosbarth mewn gwasanaethau ysgol ac arddangosfeydd dosbarth.
- Gwneir defnydd helaeth o wefannau megis HWB a Cynnal fel adnoddau rhyngweithiol.

Materion i gael sylw							
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cyfleoedd a gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer dysgwyr abl a thalentog. 							
Rhagorol		Da	✓	Digonol		Anfoddhaol	

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?							
Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?				Ydy		Nac ydy	
Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)							
Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd <ul style="list-style-type: none"> Cynhelir addoli ar y cyd ysgol gyfan bob wythnos yn ogystal â gwasanaethau dosbarth. Mae naws ysbrydol a moesol i'r gwasanaethau. Rhoddir cyfleoedd i bob disgybl gymryd rhan naill ai'n gyhoeddus neu trwy fyfyrio. Mae gwasanaethau dosbarth yn cynnwys darllen a thrafod storïau Beiblaidd a moesol. Mae gan yr ysgol amcanion clir o ran datblygiad moesol y plant a llwyddir i'w gwireddu gydag ethos ofalgar sy'n cwmpasu bywyd a gwaith yr ysgol. Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig yn y gymuned. Bydd y Gweinidog yn ymweld â'r ysgol yn fisol i gymryd gwasanaeth. 							
Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd							
Rhagorol	✓	Da		Digonol		Anfoddhaol	

Llofnod: Nïa Roberts – cydlynnydd Addysg Grefyddol

C Ff Roberts (Pennaeth)

Dyddiad: 25/9/2013

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Manylion cyswllt: (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.

Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: YSGOL TANYCASTELL

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweiliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Mae safonau yr ysgol mewn Addysg Grefyddol yr ysgol yn dda.

Ar ôl craffu llyfrau gwaith disgyblion o flynyddoedd Derbyn i flwyddyn 6 mae tystiolaeth yn dangos fod

- *Plant yn cael y cyfle i ddatblygu ystod o sgiliau drwy defnyddio nifer o ffynonellau amrywiol*
- *Mynegi barn, trafod a gofyn cwestiynau am amrywiol bynciau*
- *Cyfle i ystyried, gwerthuso a dod i gasgliad.*

Ceir cynllunio pwrpasol a heriol sy'n cynnwys elfennau perthnasol o'r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Materion i gael sylw

Parhau i fonitro safonau Addysg Grefyddol drwy graffu llyfrau ac arsylwi gwersi.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddedd i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Mae cynlluniau Addysg Grefyddol yn cyd fynd ar maes llafur cytûn. Ar hyn o bryd rydym fel ysgol yn newid y cynlluniau i gyd fynd ar fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Sicrheir cyfleon i'r disgyblion i gael profiadau byw, megis ymweliadau amrywiol, gwahodd gwestai 'r dosbarthiadau (ficer).

Astudir 'pobl sy'n ein helpu' yn y CS ac mae digon o gyfleodd yn y cynlluniau i ymwelwyr ymweld ar dosbarth megis nyrs/meddyg/heddlu.

Bydd plant yn dod i wybod am dair crefydd gwahanol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol – Cristnogaeth, Hindwaeth a Mwslemiaeth.

Materion i gael sylw

Sicrhau fod adnoddau pwrpasol ar gyfer y crefyddau gwahanol

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy	Nac ydy					
<p>Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)</p>							
<p>Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd</p> <p><i>Cynhelir gwasanaeth torfol – ysgol gyfan teirgwaith yr wythnos gydag un yn dathlu llwyddiant. Mae amserlen penodol ar gyfer addoli ar y cyd – mae pob athro/awes yn cynnal sesiwn addoli ar y cyd. Yn ystod addoli ar y cyd ceir amser i fyfyrion am y pwnc. Mae'r dosbarthiadau yn gyfrifol am addoli ar y cyd ble y cawn wasanaeth arbennig e.e Gwyl Dewi/Diolchgarwch/Nadolig. Dw gwirfoddolwyr o Eglwys St Tanwg yma fel rhan o gynllun Agor y llyfr – bob pythefnos i gynnal addoli ar y cyd, mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn yr addoli yma drwy actio/darllen a gweddio. Ceir sesiwn o fyfyrion ar ddiwedd bob sesiwn.</i></p>							
<p>Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd</p> <p>Sicrhau fod mwy o gyswllt rhwng yr ysgol â'r Eglwys a capeli cyfagos.</p>							
Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddfaol	

Llofnod: *A.P. Williams* (Pennaeth)

Dyddiad: 28.04.14

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Manylion cyswllt:

Enw (Clerc CYSAG):

Cyfeiriad:

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: YSGOL Pont y Gof

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Y CYFNOD SYLFAEN

Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.

Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.

Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall lleiafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn ymwybodol bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau hwy gan gynnig eu barn eu hunain.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol. Yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain oherwydd natur y themau mae tua hanner y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendiant yw'r atebion yn aml.

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol.

Materion i gael sylw

CYFNOD SYLFAEN

- Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol.

Rhagorol		Da	v	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i bennaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Y CYFNOD SYLFAEN

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.#
- Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Neilltuir sesiwn o o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan athrawes CPA o flwyddyn 3 i 6.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â'r plant.
- Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn dda.

Materion i gael sylw

Y CYFNOD SYLFAEN

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr o fewn y cynlluniau.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Parhau i osod MPLI a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrion ar y dysgu.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Addoli ar y Cyd

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy	Nac ydy
--	-----	---------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth, cyfnod ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad.

Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd.

Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwyllo neu fyfyrto ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddio
- Canu
- Darllen

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau.

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

- Efelychu yr arferion da ymhob gwasanaeth
- Sicrhau fod A ar y C dosbarth/adran(CS) yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion
- Datblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur
- Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag A ar y C

Rhagorol	Da	Digonol	Anfoddhaol
----------	----	---------	------------

Llofnod: *Euros Davies*(Pennaeth)

Dyddiad: 23-05-14

CYD-DESTUN YSGOL TREGARTH

- Ysgol gynradd wledig sy'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.
- Ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ers ei sefydlu yn 1897.
- Mae 140 o ddisgyblion yn mynychu, gyda mwyafrif o'r plant o gefndir ethnig gwyn Prydeinig. Daw tua 41% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.
- Mae'r plant yn cael eu dysgu mewn 7 ddsbarth yn cynnwys 3 dosbarth cymysg eu hoedran. Mae 6.8 athrawes a 6 cymhorthydd yn gweithio yn yr ysgol.
- Penodwyd y Pennaeth presenol i'w swydd yn Medi 2013, ac mae hi hefyd yn bennaeth ar ysgol gynradd gyfagos, felly yn rhannu ei hamser rhwng y ddau sefydliad.
- Mae 17% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 21%.
- Mae tua 33% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac yn derbyn cymorth o fewn yr ysgol.
- Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Tregarth yn 2013-2014 yw £3,539.

GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD YR YSGOL

Mae holl gymuned Ysgol Tregarth yn rhannu yr un meddylfryd a gweledigaeth. Rydym , fel ysgol eglwys , i gyd wedi ymrwymo i'r nod o sicrhau:

Bob pob plentyn yn hapus yn yr ysgol , yn cael ei drin yn deg gydag urddas a pharch ar bob achlysur;

Bod pob plentyn yn cael y pob cyfle i lwyddo a chyrraedd ei botensial;

Bod pob plentyn yn cael pob cyfle i ddatblygu i fod yn ddinasydd dwyieithog a chyflawn sy'n gallu cyfrannu yn llawn i'w gymuned leol, cenedlaethol a byd – eang ;

Bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i ymfalchio yn ei genedligrwydd gan ddatblygu dealltwriaeth lawn o'i hunaniaeth , traddodiadau a diwylliant arbennig;

Bod pob plentyn yn cael pob cyfle i ddatblygu yn foisol ac ysbrydol gyda dealltwriaeth dda o Gristnogaeth a chrefyddau eraill;

Bod pob plentyn yn cael ei addysgu mewn awyrgylch ddiogel a hapus, ble rhoddir fri ar lwyddianau'r a mwynhad y plentyn yn ei ddysgu.

CRYNODEB

Mae cyfraniad cymunedol Ysgol Tregarth yn nodwedd arbennig o'i chymeriad eglwysig. Mae cysylltiadau gyda'r gymuned leol a byd eang yn chwarae rhan ganolog yn ei holl weithredoedd ac yn ffocws i waith elusennol yr ysgol. Drwy hyrwyddo y cysylltiadau cymunedol hyn rydym fel ysgol yn hyrwyddo a meithrin egwyddorion Cristnogol sylfaenol , megis diolchgarwch, gofalgarwch a gwasanaethu eraill, tosturi, ynghyd a dyfalbarhau a dycnwch sydd yn creu awyrgylch hapus a cefnogol yn yr ysgol sy'n arwain at ddysgu mwy effeithiol.

CWESTIWN ALLWEDDOL 1

Pa mor dda y mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol arbennig, yn cyfarfod ag anghenion yr holl ddysgwyr?

HUNAN-ARFARNU'R YSGOL : DA

Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r disgyblion

Rhesymau dros y radd:

- Mae tueddiadau cyflwniad dysgwyr dros y dair mlynedd diwethaf yn dangos cynnydd cyson.
- Mae bron bob un dysgwr yn gwneud cynnydd dwy lefel rhwng y ddau gyfnod allweddol.
- Mae plant PYD yn cyflawni cystal a plant dim PYD.
- Mae presenoldeb yr ysgol wedi aros yn gyson yn 95%.
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael pob cyfle i gyrraedd ei botensial ac yn sicrhau bod y plentyn yn ganolog i bob cynllun a gweithrediad strategol.
- Mae polisiau creiddiol a gweithredoedd dyddiol yr ysgol yn adlewyrchu ei chymeriad a gwerthoedd Cristnogol.
- Mae ethos ac awyrgylch cartrefol a hapus yr ysgol yn sicrhau bod y gwerthoedd Cristnogol yn cael eu hadlewyrchu ar bob achlysur.
- Mae'r ysgol wedi mabwysiadu Maes Llafur yr Eglwys yng Nghymru sy'n sicrhau bod dysgwyr yn derbyn addysg grefyddol gyflawn a dealltwriaeth o grefyddau'r byd yn cael ei ddatblygu.
- Mae Addysg Grefyddol wedi ei amserlennu'n wythnosol ymhob dosbarth ar draws yr ysgol ac hyn wedi arwain at well cyflawniad a dealltwriaeth moesol ac ysbrydol.

Cryfderau Allweddol:

- Darpariaeth ADY yr ysgol sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cael y gefnogaeth briodol ar gyfer ei anghenion – addysgiadol, corfforol neu emosiynol/cymdeithasol. Mae disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd o ganlyniad i holl ffocws yr ysgol ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a lles yr ysgol. Mae datblygiad pendant drwy'r ysgol yn egwyddorion Webster Stratton yr ysgol drwy gynlluniau Caleb, Ysgol Dina ac Os Mets. Buddsoddwyd mewn rhaglenni ymyrraeth pwrpasol megis, Dina Bach a Kid Skills, ynghyd ac amserlennu AMSER Enfys yn y CS er mwyn datblygu perthnasoedd, parch a chyfeillgarwch ymysg y dysgwyr. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad cyffredinol y dysgwyr ynghyd a sicrhau bod ethos gyfeillgar yn ysgol yn cael ei eiriolaethu yn barhaus.
- Rhaglen waith ADCDF yr ysgol yn sicrhau bod gan y dysgwyr ddealltwriaeth cadarn o'u cymuned leol a rhyngwladol a'u rol a cyfrifoldeb hwythau fel dinasyddion yn eu gwarchod a'u gofalu – cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu a meithrin cymeriad Cristnogol yr ysgol ynghyd a datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwyllianol y dysgwyr. Mae'r ysgol wedi ennill dwy faner werdd Eco, Gwobr Aur Ysgolion Gwyrdd ers 6 mlynedd ynghyd a gwobr ISA llawn- mae'r gwaith wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ymagweddau'r dysgwyr ynghyd a chyfrannu at godi safonau llythrennedd a rhifedd yr ysgol.
- Gwaith elusennol yr ysgol yn dystiolaeth o werthoedd Cristnogol yn weithredol mewn cyd-destun real.
- Cyswllt effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned – mae rhieni yn mynychu gwasanaethau gwobrwyo bob bythefnos ac yn gefnogol iawn i holl weithgareddau'r ysgol.
- Cwricwlwm Cymreig a ffocws ar ddatblygu ymwybyddiaeth o hunaniaeth y Cymry ymysg y dysgwyr wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar holl gymuned y dysgwyr wrth ddatblygu'r ymdeimlad o barch at eu gwlad a'i thraddodiadau ynghyd a'r awydd i warchod yr hyn sy'n bwysig.

Pwyntiau Datblygu:

Monitro datblygiad ac effeithiolrwydd y Maes Llafur Addysg Grefyddol Eglwysig ar gyflawniad y dysgwyr.

Monitro ac asesu cyflawniad gyda INCERTS.

CWESTIWN ALLWEDDOL 2

Beth yw effaith cydaddoli ar gymuned yr ysgol?

HUNAN-ARFARNU'R YSGOL : DA

Tystiolaeth ysgol sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r disgyblion

Gwnewch sylwadau ar :

- Effaith cydaddoli
- Nodweddion canolog cydaddoli
- Natur ganolog addoli a myfyrdod
- Sail ddiwynyddol cydaddoli
- Arweinyddiaeth a rheolaeth cydaddoli

Rhesymau dros y radd:

- Mae trefn gadarn cyd-addoli yr ysgol wedi sicrhau bod cyswllt agos iawn gyda'r Eglwys wedi ei feithrin sy'n adlewyrchu ein cymeriad Cristnogol unigryw.
- Mae ymatebion ac ymddygiad bron pob un o'r dysgwyr i'w canmol yn ystod y cyfarfodydd ac mae'n fodd o ddatblygu ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol sy'n hollol angenrheidiol mewn ysgol sy'n wynebu heriau cymdeithasol anodd.
- Mae polisi cyd-addoli yr ysgol yn weithredol ac yn wybyddus i holl gymuned yr ysgol.
- Mae nodweddion canolog cyd-addoli yn cael eu cynnwys ymhob addoliad ac wedi cael effaith gadarnhaol ar naws y cyfnodau hyn yn yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol.
- Cyfranogiad y dysgwyr yn rhan anatod o gyd-addoliad yr ysgol. Mae llais y plenty yn cael man blaenllaw yn y cyd-addoli gyda nifer o esiamplau o blant yn mynd ati i gyd-lunio eu gwasanaeth ddosbarth.

Cryfderau Allweddol:

- Gwasanaeth Diolchgarwch 2013. Llwyddwyd i adlewyrchu cymeriad Cristnogol unigryw yr ysgol yn yr addoliad. Llwyddwyd i greu naws cyd-addoli effeithiol oedd yn ychwanegu at gryfhau ein cysylltiad gyda cymuned eglwysig Eglwys y Gelli.
- Mae gwasanaethau dosbarth sy'n rhan greiddiol o wasanaeth gwobrwyo wythnosol yr ysgol wedi sicrhau a meithrin cyswllt agos gyda cymuned y rhieni ac yn fodd o'u gwneud yn ymwybodol o ddoniau a gweithredoedd dyddiol yr ysgol. Mae'r cyswllt yma wedi cyfrannu at ethos gartrefol yr ysgol ble chwareuir gwerthoedd Cristnogol megis caredigrwydd, maddeuant a goddefgarwch ran blaenllaw. Mae wedi llwyddo i dynnu cymdeithas ehangach yr ysgol i mewn i werthfawrogi llwyddianau plant gan ychwanegu at greu awyrgylch werthfawrogol o'n gilydd a'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref.
- Mae pob athro yn ei dro yn cymryd cyfrifoldeb am arwain yr addoliad sy'n greiddiol i'r weledigaeth o arweinyddiaeth dosranedig y pennaeth. Mae hyn wedi arwain at gryfhau atebolrwydd pob aelod o staff yr ysgol am gymeriad Cristnogol yr ysgol .
- Strwythur bendant yr amserlen cyd-addoli wedi arwain at ddatblygu yr ymdeimlad bod y gwasaneth yn gyfnod arbennig o ymdawelu a myfyrio.

Pwyntiau Datblygu:

